# Barddoniaeth

4.161

## I'R HYBARCH WM. HARRIS, ABERDAR.

Mae Harris o Heolyfelin
  Yn enw teuluaidd trwy'n gwlad;
Mae'n frawd o gymmeriad aruchel,
  Holl Gymru rydd iddo fawrhad.
Fe'i parchwyd pan ydoedd yn ieuanc
  Fel un o ffyddloniaid y Groes,
A hyny gan wyr o ddylanwad
  O'ent uchel mewn crefydd a moes.

Yr oedd yn ddyn ieuanc defnyddiol,
  Ymroddgar i bobpeth o werth;
Hen Nebo, Glyn Ebwy, hoffusol
  A gafodd ddechreuad ei nerth.
Fel athraw o'r Ysgol Sabbothol
  Yn gynnar enwogodd ei hun,
Diolchodd llaweroedd yn gynhes
  Am gael ganddo addysg mor gun.

Fe brofodd ei hunan yn gerddor,
  A chafodd ei ethol yn rhwydd,
I arwain caniadaeth yr eglwys,
  A medrus y llanwodd ei swydd.
Yr eglwys a wyliai ei gynnydd,
  Ac yntau ddadblygai'n ffyddlawn;
Wrth wel'd ynddo ddefnydd pregethwr
  Rhow'd arno i arfer ei ddawn.

Efe a gydsyniodd yn wylaidd
  I draethu gwirionedd y Groes;
A hyny a ffyddlon bregethodd
  Yn dcyrngar i'r Iesu drwy'i oes.
Gwr unplyg ei feddwl yw Harris,
  A chadarn ddiffynwr y ffydd,
Sef ffydd yr efengyl fendigaid
  Dderbyniwyd gan filoedd 'r un dydd.

Difyrus a dawnus yw 'Gwilym'
  Drwy'r 'Seren' odidog yn wir;
Adrodda effeithiol hanesion
  Am achos yr Iesu'n ein tir.
Mae'n dal yn rhyfeddol o gadarn
  Er myned ei oedran yn fawr,
Os ydwyf yn cofio yn gywir
  Mae'n agos i wyth-deg yn awr.

Fy nyhyfaill, dal ati am ronyn,
  Mae'r delyn a'r palmwydd ger llaw;
A'r goron addawodd yr Iesu,
  Mae iti yn sicr o'i law.
Ein braint ydyw gwneuthur ein goreu
  Yn nheyrnas ein Duw ar y llawr
Ar ol i ni groesi'r Iorddonen
  Fe fydd ein gorfoledd yn fawr.

WM. DAVIES (Cymru Fydd).

Caerdydd.

X205 2466004